



Heddlu  
Gwent  
Police

# Adroddiad Blynyddol 2016-2017

Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol cyntaf yn 2012 er mwyn helpu i gyflawni eu dyletswyddau fel awdurdod cyhoeddus fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd mewn partneriaeth, sy'n nodi ein cyd-flaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y 4 blynedd nesaf.

Pennwyd y blaenoriaethau hyn drwy ymgynghori â'n staff a'n cymunedau, a chânt eu cyflwyno fel Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Er mwyn ein helpu i gyflawni'r Amcanion hyn, mae gan Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Gynlluniau Gweithredu unigol sy'n cadw llygad ar ein cynnydd ac sy'n sail i'r Adroddiad hwn.

Er bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Hamcanion i'n helpu i gyflawni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn bwysicach oll, mae'n dathlu gwaith llwyddiannus wrth ymdrechu i sicrhau gwasanaeth heddlu teg a chynhwysol.

Noder – mae'r term 'Nodweddion Gwarchoddedig' a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at nodweddion oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd, beichiogrwydd a mamolaeth a rhyw.

## 2. Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Prif nod ein Hamcanion Cydraddoldeb yw sicrhau ein bod yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein busnes o ddydd i ddydd:

1. Cymunedau Ymgysylltiol – darparu gwasanaethau y gellir eu defnyddio'n hawdd, sy'n ymateb i anghenion pob cymuned ac sy'n diwallu'r anghenion hynny.
2. Cyflogwr Delfrydol – creu amgylchedd gwaith sy'n cynnwys pawb ac sy'n annog staff i ddatblygu a dod yn eu blaen.

3. Gwasanaeth sy'n Gweithio – gwneud cydraddoldeb yn rhan o brosesau'r sefydliad a'r ffordd y caiff perfformiad ei reoli.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb yn ganolog i werthoedd Heddlu Gwent, sy'n sail i bopeth rydym yn ei wneud ym maes plismona. Ein gwerthoedd yw bod yn Ddibynadwy; yn Deg; yn Broffesiynol; yn Ofalgar ac yn Ymatebol.

O edrych i'r dyfodol, bydd gwaith i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Plismona Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent hefyd:

- Atal Troseddau;
- Cefnogi Dioddefwyr;
- Cydlyniant Cymunedol;
- Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;
- Darparu Gwasanaethau'n Effeithiol

Yn benodol, rydym yn cefnogi'r gwaith sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol:

- Ceisio barn pob cymuned ar faterion plismona a throseddau a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau;
- Sicrhau ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n hyrwyddo parch a chydlyniant drwy ymgysylltu â'n cymunedau ac sy'n cefnogi amgylchedd lle na chaiff troseddau nac anhrefn eu goddef;
- Mae gan Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau weithluoedd iach a arweinir gan werthoedd sy'n wir yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethant;
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau effaith troseddau cyfundrefnol a lleihau radicleiddio a thwf eithafiaeth.

## 3.Y Diweddaraf ar ein Hamcanion Cydraddoldeb

### Amcan Cydraddoldeb 1: Troseddau Casineb a Cham-drin Domestig

*Nodi cam-drin ac aflonyddu lle mae'n effeithio ar gymunedau ac unigolion, a gweithredu'n effeithiol i atal a herio'r ymddygiad hwn, yn ogystal â dwyn troseddwy'r gerbron llys*

#### A. Cam-drin domestig

Un o'r ymrwymadau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw gwella cyfraddau rhoi gwybod am ddigwyddiadau o gam-drin domestig, a chyfraddau cofnodi digwyddiadau o'r fath, sy'n effeithio'n benodol ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig – mae hyn yn cynnwys Trais ar sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Wrth bennu ein Hamcanion Cydraddoldeb, nodwyd bod nifer y dioddefwyr a oedd o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnig (BAME), neu'n bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol neu drawsryweddol (LGB neu T) neu'n bobl anabl yn isel iawn yng Ngwent, yn ôl trafodaethau mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg sy'n rheoli achosion risg uchel o gam-drin domestig.

Eleni, mae nifer yr atgyfeiriadau BAME wedi cynyddu o 4% i 7%, ond mae nifer yr atgyfeiriadau LGBT ac anabledd wedi lleihau o 0.8% i 0.2% ac o 2.3% i 0.7%. Yn genedlaethol, y ganran gyfartalog ddisgwyliedig yw 3.5% ar gyfer dioddefwyr anabl a 5% ar gyfer dioddefwyr LGBT, felly rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud i annog dioddefwyr i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath a gwella'r ffordd rydym yn eu cofnodi.

Un o'r heriau i ni yw sicrhau bod ein prosesau cofnodi yn casglu'r wybodaeth am ddemograffeg dioddefwyr cam-drin domestig yn gywir fel bod y ffigurau hyn wir yn gynrychioliadol. Bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu dros y flwyddyn nesaf ac yn cael ei ymgorffori yng ngwaith Swyddfa'r Comisiynydd i ddatblygu Fframwaith Agored i Niwed a gweithio o fewn ein hwb i ddioddefwyr, Connect

Gwent, er mwyn deall nodweddion dioddefwyr sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth yn fwy.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella'r ffordd rydym yn ymateb i ddigwyddiadau o Drais ar sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod neu Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Cynhaliwyd dwy ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, gan weithio gyda phartneriaid i gyrraedd y rhai sydd mewn perygl – gweithiodd Ymgyrch yr Haf gyda chymunedau a'r sector addysg er mwyn tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â theithio yn ystod yr haf, a gwnaethom gefnogi digwyddiad amlasiantaeth ym Maes Awyr Caerdydd yn ystod Pasg 2017.

Sefydlwyd is-grŵp Trais ar sail Anrhydedd o'r grŵp Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol amlasiantaeth, ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r grŵp yn bwriadu craffu ar achosion o Drais ar sail Anrhydedd yn rheolaidd er mwyn nodi gwersi a ddysgwyd, ac mae'n casglu data yn rheolaidd er mwyn deall natur a graddau digwyddiadau o'r fath yn well. Mae hyfforddiant ar Drais ar sail Anrhydedd, Priodasau dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod bellach yn cael ei roi i holl recriwtiaid newydd yr heddlu, ac mae pob aelod o staff yn Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gwent wedi cael hyfforddiant hefyd. Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd fel Priodasau dan Orfod neu Drais ar sail Anrhydedd o gymharu â'r llynedd, sy'n arwydd cadarnhaol o gydnabyddiaeth a lefelau hysbysu gwell.

| <b>Math</b>                               | <b>2015/16</b> | <b>2016/17</b> |
|---|----------------|----------------|
| <b>Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod</b> | 0              | 0              |
| <b>Priodas dan Orfod</b>                  | 2              | 4              |
| <b>Trais ar sail Anrhydedd</b>            | 12             | 44             |

## **B. Troseddau Casineb**

Yn debyg i gam-drin domestig, nododd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol fod angen cynyddu nifer y troseddau casineb a gaiff eu cofnodi gan Heddlu Gwent drwy ymdrechu i wella hyder y gymuned i roi gwybod amdanynt yn ogystal ag ymwybyddiaeth fewnol o'u natur a'u heffaith. Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd ym mhob maes amrywiaeth yn ystod 2016/17 o gymharu â 2015/16.

| Math              | 2015/16 | 2016/17    |
|-------------------|---------|------------|
| <b>Hiliol</b>     | 143     | 277 (+93%) |
| <b>Homoffobig</b> | 49      | 61 (+24%)  |
| <b>Anabledd</b>   | 15      | 45 (+200%) |
| <b>Trawsfobig</b> | 4       | 10 (+150%) |
| <b>Crefyddol</b>  | 2       | 7 (+250)   |
|                   | 213     | 400 (+86%) |

Yn ystod 2016/17, gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, a gellir priodoli'r niferoedd uwch hyn i'r canlynol:

**Ebrill** – cyflwyno hyfforddiant ar droseddau casineb i bob swyddog rheng flaen, gan arwain at well cydnabyddiaeth a mwy o droseddau yn cael eu cofnodi

**Gorffennaf** – ffigurau yn adlewyrchu'r cynnydd cenedlaethol ar ôl canlyniad Refferendwm yr UE

**Hydref** – mwy o bobl yn rhoi gwybod am droseddau o'r fath yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ac ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol dilynol

Yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant ar droseddau casineb i bob swyddog ym mhob rhan o'r Heddlu, mae Heddlu Gwent wedi hyfforddi 15 o Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb hefyd, sy'n golygu bod gennym 32 i gyd. Ers mis Ionawr 2016, mae pob dioddefwr digwyddiad neu drosedd casineb yn cael ei

atgyfeirio'n awtomatig at Swyddog Cymorth Troseddau Casineb sy'n gallu bod yn bwynt cyswllt unigol ar gyfer y dioddefwr, cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag ef/hi a'i (h)atgyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Gwirfoddolwyr yw Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb sy'n ymgymryd â dyletswyddau ar ben eu rolau beunyddiol, ac maent wedi cefnogi tua 600 o ddiodefwyr ers i'r cynllun gael ei gyflwyno. Maent yn parhau i wneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd y gwasanaeth a roddir i bobl yr effeithir arnynt gan droseddau casineb, yn ôl yr ymatebion i'n harolwg o Fodddhad Dioddefwyr:

*Roedd cael swyddog cymorth wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn fy achos i, oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod bod help ar gael*

*Roeddwn i'n gallu cysylltu'n gyflym â rhywun a oedd yn gwybod beth oedd yn digwydd, yn hytrach nag ailadrodd fy hun i rywun arall*

*Roedd yn gymwynasgar, a gwnaeth i mi deimlo'n hyderus ac yn gyfforddus*

Rydym wedi bod yn monitro hefyd pa mor fodlon yw ein dioddefwyr troseddau casineb ar y gwasanaeth a gawsant. Cynhaliwyd 169 o arolygon gyda dioddefwyr troseddau casineb yn ystod y 12 mis diwethaf. Cwblhawyd yr arolygon gyda 55% o'r holl ddiodefwyr troseddau casineb, ac fe'u cynhaliwyd mewn ieithoedd sy'n cynnwys Pwyleg, Bangladeshi, Bengaleg a Tsieceg.

Roedd cyfran is o ddiodefwyr troseddau casineb na diodefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, a oedd yn aml yn gysylltiedig â'u hanabledd, wedi rhoi gwybod am y digwyddiad ei hun (83% o gymharu â 98%). Mae Heddlu Gwent yn cynnal adolygiadau o'i ganolfannau hysbysu trydydd parti i bobl anabl er mwyn mynd i'r afael â hyn, ac yn cefnogi'r cynllun Lleoliadau Diogel yn Sir Fynwy, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Bartneriaeth y Comisiynydd, er mwyn helpu i gynnig lleoliadau lle y gall pobl anabl roi gwybod am droseddau casineb yn hyderus.

Er bod lefelau boddhad dioddefwyr troseddau casineb yn uwch o hyd na lefelau boddhad dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, ar y cyfan maent wedi gostwng ychydig dros y 12 mis diwethaf am fod canran y bobl sy'n dweud eu bod yn 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' wedi gostwng o 86% i 82%. Gwnaeth Heddlu Gwent rywfaint o waith i ddeall hyn, gan ganfod ei fod yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd dioddefwyr yn teimlo bod y canlyniad yn foddhaol. Rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb ar weithio gyda dioddefwyr i sicrhau eu bod yn deall y rhesymau dros gamau gweithredu'r Heddlu a sicrhau bod popeth posibl wedi cael ei wneud i fodloni neu i reoli disgwyliadau.

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i'r Comisiynydd, a chafodd yr arian ei ddefnyddio gan Heddlu Gwent i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth er mwyn herio rhywfaint o'r rhethreg negyddol yn sgil ymgyrchoedd a chanlyniad Refferendwm yr UE. Cynhaliwyd digwyddiad mawr yng nghanolfan siopa Cwmbrân mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd er mwyn ceisio cyrraedd pobl leol a'u cynnwys mewn trafodaethau ynghylch gwahaniaethu, rhagfarn a throseddau casineb. Roedd y diwrnod yn cynnwys:

- Cyfleoedd i ymgysylltu â cheiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr lleol. Roedd holl deuluoedd Syriaidd Torfaen yn bresennol yn y digwyddiad ar ôl i Heddlu Gwent ymgysylltu â nhw yn ddiweddar
- Ystafell ddyddiadur fideo Big Brother er mwyn clywed barn y cyhoedd ar droseddau casineb, eu hefffaith, a beth y gall cymunedau ei wneud i fynd i'r afael â nhw
- Gweithgareddau allweddol yn ystod y diwrnod, gan gynnwys gweithdy a gynhaliwyd gan ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ar gyfer 40 o bobl ifanc a oedd yn rhan o raglen Dyfodol Positif Gwent
- Cyngor i unrhyw un a oedd angen help arnynt gan sefydliadau megis Cymorth i Ddioddefwyr, Alltudion ar Waith a Chyngor Ffoaduriaid Cymru

Mae uwch swyddogion a thimau plismona lleol mewn ardaloedd â safleoedd sipsiwn a theithwyr hefyd wedi cefnogi 'Ymgyrch Hate', ymgyrch genedlaethol



sy'n ceisio annog pobl yn y cymunedau hyn i roi gwybod am droseddau casineb, a gwnaeth Heddlu Gwent gefnogi'r gwaith o ddatblygu llyfryn troseddau casineb Cyngor Ffoaduriaid Cymru sy'n ceisio gwella dealltwriaeth ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr o droseddau casineb, sef beth ydynt a sut i roi gwybod amdanynt.

Rydym wedi parhau i hyrwyddo ein cynllun Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb a chodi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn, gan roi sylw i achlysuron megis Mis Hanes LGBT, Mis Hanes Pobl Dduon a Diwrnod Rhyngwladol Amlygrwydd Trawsrywioldeb. Mae Heddlu Gwent hefyd wedi cyhoeddi canllawiau gweithredol i swyddogion sy'n ymdrin â 'throseddau cyfeillio', mewn ymateb i gynnydd yn nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt lle mae troseddwyr yn dod yn gyfaill i unigolion yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ac yn camfanteisio arnynt. Ym mis Mai, gweithiodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyda'n Hwb Dioddefwyr, Connect Gwent, er mwyn codi ymwybyddiaeth o droseddau cyfeillio yn y cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethant gwrdd â dioddefwyr a oedd wedi cael profiad o'r math hwn o gamdriniaeth ac annog eraill i roi gwybod amdano.

## **Amcan Cydraddoldeb 2: Cyfreithlondeb a Thegwch**

*Sicrhau bod gweithgareddau plismona, yn enwedig stopio a chwilio a chysylltiadau sy'n cynnwys defnyddio grym, yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n gyfreithlon, yn gymesur, nad yw'n gwahaniaethu ac sy'n meithrin cydberthnasau cadarnhaol rhwng cymunedau a'r Heddlu*

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithgareddau plismona a nodwyd fel rhai sy'n arbennig o ymwthiol, ac sy'n debygol o effeithio ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig mewn modd anghyfartal, yn destun craffu priodol a bod dulliau cyfathrebu â'r cyhoedd yn cael eu gwella er mwyn rhoi sicrwydd a chael adborth.

### **A. Stopio a Chwilio**

Cyflwynodd y Swyddfa Gartref ei chynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio yn 2014, a'i nod yw sicrhau mwy o dryloywder, mwy o ymwneud gan y gymuned yn y ffordd y defnyddir pwerau stopio a chwilio, a chanlyniadau gwell ar ôl eu defnyddio. Mae Heddlu Gwent yn dal i gydymffurfio â'r cynllun, ac mae'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn parhau i wella'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn monitro stopio a chwilio.

Fel rhan o'r cynllun, cyflwynodd Heddlu Gwent gynllun cysgodi yn 2015, a oedd yn rhoi'r cyfle i aelodau o'r cyhoedd weld realiti plismona gweithredol ochr yn ochr â staff a swyddogion. Erbyn diwedd mis Ebrill 2016, roedd 744 o bobl wedi cysgodi Heddlu Gwent. Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd adolygiad er mwyn asesu'r cynllun, gan gynnwys ei effaith ar gymunedau BAME sydd, yn y gorffennol, wedi bod yn llai hyderus yn y defnydd o stopio a chwilio ac sydd wedi teimlo ei effaith yn fwy.

Roedd 5% o'r unigolion a gymerodd ran yn y cynllun o gefndir BAME, sy'n cynrychioli demograffeg ddiweddar ein cymuned ac sy'n awgrymu bod tua 3.9% o'r bobl sy'n byw yng Ngwent o gefndir BAME (cyfrifiad 2011). Yng Nghasnewydd, lle mae'r gyfran hon yn codi i tua 10%, roedd 14% o'r unigolion a gymerodd ran o gefndir BAME, sy'n cyfateb i tua 15% o gyfanswm yr unigolion a gymerodd ran yn y cynllun yn yr ardal hon.

Roedd gan y mwyafrif o'r unigolion a gymerodd ran yn y cynllun, ac a hapsamplwyd fel rhan o'r adolygiad, farn eithaf cadarnhaol am yr Heddlu, a manteisiodd llawer ohonynt ar y cyfle fel rhan o'u gwaith tuag at ddod yn swyddog. Os bwriedir i'r cynllun fod yn effeithiol o ran gwella hyder y cyhoedd ac ymddiriedaeth ymhlith y cymunedau hynny sydd â barn fwy negyddol am yr Heddlu, byddwn hefyd yn ystyried hyrwyddo'r cynllun yn uniongyrchol i'r grwpiau hynny na fyddent fel arfer yn ystyried cymryd rhan ynddo.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd ymarfer hapsamplu, gan archwilio 65 o gofnodion stopio a chwilio mewn partneriaeth ag aelodau o Grŵp Cynghori Annibynnol yr Heddlu ac arweinydd gweithredol Heddlu Gwent. O'i gymharu â'r ymarfer hapsamplu diwethaf, arestiwyd cyfran fwy o unigolion a gafodd eu stopio a'u chwilio (15% o'i chymharu ag 8%) a chymerwyd camau pellach yn erbyn llai o unigolion a gafodd eu stopio (66% o'i chymharu â 77%).

Am y tro cyntaf, defnyddiodd yr ymarfer hapsamplu ffilm o gamera a wisgwyd ar y corff er mwyn arsylwi ar y swyddog, ac arweiniodd hyn at werthfawrogiad gwell o rai o'r amgylchiadau lle mae swyddogion yn stopio ac yn chwilio.

Yn ystod 2016, roedd Cymhareb Anghymesuredd Hiliol Heddlu Gwent tua 2.2 ar gyfartaledd. Mae hyn yn awgrymu, yn ystadegol, fod pobl o gefndir BAME ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio na phobl wynion. Mae'r ffigur hwn yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a chrynodiad uchel Gwent o drigolion BAME mewn rhai ardaloedd a chymunedau gwyn yn bennaf mewn ardaloedd eraill sy'n effeithio arno. Mae Bwrdd Stopio a Chwilio'r Heddlu yn craffu ar y data hyn yn rheolaidd, ac yn sicrhau y gellir cyfiawnhau Cymarebau Anghymesuredd Hiliol ym mhob Ward.

Yn ogystal â'r ymarfer hapsamplu, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo er mwyn deall profiadau cymunedau o stopio a chwilio yn well a rhoi gwybod i bobl am eu hawliau. Mae stopio a chwilio yn ffurfio rhan o gwrs Policesol Heddlu Gwent (gweler Amcan Cydraddoldeb 3) ac mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio mewn partneriaeth â Dyfodol Positif a swyddogion lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc. Mae Dyfodol Positif yn gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau addysgol y byddai ymgysylltu'n fwy â nhw o fudd iddynt, ac mae pob aelod o staff bellach wedi cael hyfforddiant stopio a chwilio. Mae sesiwn bwrpasol bellach yn cael ei datblygu er mwyn ei chyflwyno mewn ysgolion yng Ngwent, gan ddefnyddio staff Dyfodol Positif a Swyddogion Cymuned Ysgol Heddlu Gwent.

Mae dau o ddiwrnodau hyfforddiant yr Heddlu wedi ymdrin â'r gwersi a ddysgwyd o arolygiadau diweddar Arolygiaeth Cwnstablaieth ei Mawrhydi, gan gynnwys seiliau rhesymol a Thuedd Anymwybodol, a rhoddwyd pecyn stopio a chwilio cenedlaethol y Coleg Plismona i bob cwnstabl a rhingyll gweithredol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn nodi'r angen i ddadansoddi data ar ddefnyddio grym ymhellach, yn arbennig taser, arfau tanio a baton. Yn ddiweddar, sefydlwyd Bwrdd Defnyddio Grym a fydd yn ymgymryd â'r gwaith hwn, yn arbennig y gwaith o wella'r wybodaeth sydd ar gael am Nodweddion Gwarchoddedig pobl yr effeithir arnynt.

## **C. Y Ddalfa**

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i wella sut rydym yn craffu ar ddata'r ddalffa sy'n ymwneud â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig. Mae ein system rheoli perfformiad, OlikView, bellach yn casglu gwybodaeth am arestiadau yn ôl cenedligrwydd, oedran, rhyw ac ethnigrwydd, ac mae uwch reolwyr yn adolygu'r data hyn yn rheolaidd erbyn hyn. Yn ogystal, mae'r meysydd hyn yn 'bynciau' wrth archwilio cofnodion y ddalffa a chynnal gwiriadau dilysu i gydymffurfio â disgwyliadau cenedlaethol. Mae'r tabl isod yn crynhoi data'r ddalffa yn ôl ethnigrwydd o'u cymharu â gwybodaeth 2015/16. Ceir cynnydd bach yn nifer y Bobl Dduon ac Asiaidd a arestiwyd, ond nid oes anghymesuredd i'w weld o'i gymharu â'r data poblogaeth presennol. Bydd gwella dealltwriaeth o'r data hyn yn flaenoriaeth yn y cyfnod sydd i ddod:

|                            | 2015/16 | 2016/17 |
|----------------------------|---------|---------|
| <b>Nifer yr arestiadau</b> | 11,441  | 9,876   |
| <b>Arestiadau Gwyn</b>     | 95%     | 93%     |
| <b>Arestiadau Asiaidd</b>  | 2.6%    | 3.5%    |
| <b>Arestiadau Du</b>       | 2.4%    | 3.5%    |

Erbyn hyn, mae sawl system ar waith i fonitro'r broses o gadw plant a phobl ifanc yn y ddalffa, ac mae Heddlu Gwent yn adrodd i Lywodraeth Cymru bob mis ar nifer y plant a gadwyd yn y ddalffa ar ôl eu cyhuddo, yn ogystal â nifer y plant sy'n cael eu trosglwyddo i ofal Awdurdod Lleol wedi hynny.

Ym mis Ionawr 2017, sefydlodd Cytundeb Cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol Gwent, Gwasanaethau Troseddwy Ifanc Gwent, Heddlu Gwent a Thîm Dyletswydd Brys De-ddwyrain Cymru y bydd pob achos lle mae plentyn yn y ddalffa rhwng canol nos a 5.00am yn cael ei adolygu.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i gydgyssylltu cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa gweithredol, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr yn y gymuned sy'n ymweld â'r ddalffa yn rheolaidd ac yn adolygu ansawdd y gofal a roddir i'r unigolion. Mae gwirfoddolwyr o'r fath yn cael hyfforddiant yn

rheolaidd ac yn ymwybodol o'r dangosyddion cydraddoldeb ac amrywiaeth y dylent gadw golwg amdanynt fel rhan o'u hymweliadau. Mae pob aelod o staff a swyddog yn y ddalfa wedi cael hyfforddiant eleni hefyd ar sawl pwnc cydraddoldeb, gan gynnwys cadw plant yn y ddalfa, tuedd anymwybodol, anghymesuredd hiliol a hunaniaeth o ran rhywedd.

## **Amcan Cydraddoldeb Tri: Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant**

*Sicrhau y dylanwedir ar y ffordd y darperir ein gwasanaethau gan safbwyntiau pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig a bod y gwaith a wnawn yn hyrwyddo cynhwysiant a chydlyniant*

Eleni, mae Swyddog Ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd wedi bod yn gweithio i sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o gysylltiadau er mwyn gwella dulliau cysylltu ac ymgynghori â grwpiau nas clywir yn aml. Mae'r gronfa ddata bellach yn rhan o gynllun ymgysylltu penodol a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod 2017/18. Mae'r cynllun hefyd wedi cael ei lywio gan gyfres o grwpiau ffocws gyda phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig, gan nodi'r dulliau ymgysylltu mwyaf effeithiol. Ar hyn o bryd, mae Heddlu Gwent wrthi'n recriwtio Swyddog Cydlyniant, a fydd yn canolbwyntio ar feithrin cydberthnasau a hyder o fewn cymunedau lleiafrifol er mwyn cefnogi gwaith ymgysylltu bob dydd ein Timau Plismona yn y Gymdogaeth.

Nododd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol fod angen i ni wella'r ffordd rydym yn monitro Nodweddion Gwarchoddedig pobl sy'n cwblhau arolwg 'Eich Llais' Heddlu Gwent, sef y broses o ymgynghori'n rheolaidd â chymunedau ledled Gwent i nodi blaenoriaethau lleol. Er ein bod wedi llwyddo i wella'r broses hon a sicrhau bod data monitro ar gael bellach, gwelir cyfran uchel (67%) o ymatebion 'gwell gennyf beidio â dweud' o hyd. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant beilot ar gyfer Timau Plismona yn y Gymdogaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd monitro demograffig a hyder i ofyn cwestiynau sy'n ymwneud â Nodweddion Gwarchoddedig yn effeithiol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar greu cysylltiadau cadarnhaol â chymunedau sipswn a theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid er mwyn eu helpu i integreiddio'n effeithiol a lleihau unrhyw densiwn posibl yn y gymuned. Eleni, mae Hyrwyddwr Sipswn/Teithwyr Heddlu Gwent wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu Protocol Gwersylloedd Diawdurdod ledled Gwent mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol – bydd hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyd â chanllawiau diwylliannol penodol i swyddogion a staff. Mae archwiliad o ymatebion hanesyddol Heddlu Gwent i ddiwyddiadau a oedd yn ymwneud â gwerylloedd diawdurdod yn mynd rhagddo hefyd er mwyn nodi unrhyw wersi a ddysgwyd.

Ym Mhont-y-pŵl, mae Heddlu Gwent yn parhau i feithrin cydberthnasau cadarnhaol o fewn ein safle sefydledig mwyaf i deithwyr, gan gynnig sesiynau galw heibio wythnosol a gweithio gyda sipswn a theithwyr iau i gyhoeddi llyfr ar ddiwylliant a hanes y gymuned. Yn ystod 2017/18, bydd Heddlu Gwent yn aildosbarthu canfyddiad o arolwg yr Heddlu a gynhaliwyd yn wreiddiol yn 2012 er mwyn asesu p'un a yw barn pobl am yr Heddlu wedi newid o gwbl a ph'un a yw'r Heddlu wedi ymgysylltu â phobl ar faterion megis troseddau casineb a cham-drin domestig.

Yn ystod 2016, gweithiodd Heddlu Gwent gyda Grŵp Cymorth Mewnfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Casnewydd er mwyn treialu cwrs Policesol a ariannwyd gan Gronfa Bartneriaeth y Comisiynydd. Nod cyrsiau Policesol yw rhoi gwybod i bobl sy'n newydd i Went am ddiwylliant plismona'r DU a'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd ganddynt yma, yn ogystal â thrafod pynciau pwysig megis troseddau casineb, stopio a chwilio, lles plant, cam-drin domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol, arfau a chyffuriau ac alcohol. Yn bwysicaf oll, mae'r cwrs yn ceisio gwella ymddiriedaeth a hyder mewn cymunedau a all fod wedi cael profiadau arbennig o negyddol o'r Heddlu yn eu mamwledydd.

Mae'r cwrs 4 wythnos bellach yn cael ei ariannu gan Heddlu Gwent, ac mae tua 20 o fewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop ac 18 o ffoaduriaid sy'n ddynion o gefndir BAME wedi ei gwblhau. Mae teuluoedd o Syria a ailsefydlwyd yn Nhorfaen, Caerffili a Blaenau Gwent hefyd wedi cwblhau'r cwrs yn ddiweddar. Mae'r

adborth ar y sesiynau wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt – mae pob un wedi dweud bod y cwrs wedi gwella eu barn am yr Heddlu.

*Roeddwn i'n pryderu bob tro y gwelais un o swyddogion yr Heddlu. Erbyn hyn, rwy'n hyderus y byddwn yn gallu siarad â nhw*

*Mae fy marn am yr Heddlu wedi newid am ei fod yn cadw pobl yn ddiogel a bod gan bobl ddewis. Mae'n parchu pobl ac yn diogelu pobl rhag perygl*

*Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael y cyfle hwn ac wedi cwrdd â swyddogion yr Heddlu a dod i'w hadnabod*

## **Amcan Cydraddoldeb Pedwar: Creu Gweithlu Cynrychioliadol**

***Gweithio tuag at weithlu cynrychioliadol sy'n cynrychioli demograffeg Gwent, a sicrhau bod pawb sy'n gweithio i Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael eu trin yn deg heb wahaniaethu***

Mae'r amcan hwn yn berthnasol i unrhyw grŵp o bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig. Fodd bynnag, yn unol â gweithgarwch cenedlaethol a blaenoriaethau lleol, ffocws recriwtio Heddlu Gwent eleni oedd cynyddu nifer y swyddogion heddlu sydd gennym o gefndir BAME. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi adolygu demograffeg ei staff ei hun, sy'n dangos bod y rhain yn gynrychioliadol.

Er bod tua 14% o boblogaeth y DU o gefndir lleiafrifol ethnig, dim ond 5% o swyddogion heddlu ar draws heddluoedd y DU sydd o gefndir BAME. Yng Ngwent, mae tua 4% o'r boblogaeth o gefndir BAME, sy'n codi i 10% yng Nghasnewydd, ond dim ond 2% o'n sefydliad sy'n swyddogion o gefndir BAME.

Mae cymunedau nad ydynt yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn nemograffeg yr Heddlu yn llai tebygol o fod yn hyderus yn y ffordd y cânt eu plismona, sy'n gallu arwain at densiwn sylweddol yn y gymuned. Mae

cymunedau sy'n newid yn gyflym hefyd yn golygu, yn weithredol, fod angen i ni sicrhau bod gan ein swyddogion amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth (er enghraifft, iaith, dealltwriaeth ddiwylliannol) sy'n eu helpu i wneud eu swyddi yn effeithiol.

Ym mis Ionawr 2016, am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, roedd modd i ymgeiswyr allanol ymgeisio am swydd cwnstabl yn Heddlu Gwent. Hwn oedd y cyfle cyntaf ers tipyn i roi mentrau camau gweithredu cadarnhaol ar waith, monitro cynnydd ein hymgeiswyr BAME drwy gydol y broses recriwtio, a nodi unrhyw rwystrau ym mhob cam.

O ganlyniad i ymgyrch recriwtio helaeth a dargedwyd, roedd pobl BAME yn cyfrif am 6% o gyfanswm yr ymgeiswyr. Rhoddwyd rhagor o gymorth drwy gynllun mentora'r Heddlu, a chafodd ymgeiswyr a oedd yn llwyddiannus ar y cam pwysu a mesur ceisiadau (7% o gefndir BAME) hefyd eu cynnig lle ar gwrs Tystysgrif mewn Gwybodaeth am Blismona pwrpasol a ariannwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd.

Er mwyn paratoi ar gyfer proses genedlaethol y Ganolfan Asesu, cynhaliwyd diwrnod paratoi pwrpasol i ymgeiswyr BAME, a arweiniodd at gyfradd lwyddo o 91%. Yn dilyn y broses gyfweld derfynol, roedd cyfanswm o 8 ymgeisydd BAME (sy'n cyfateb i 8.4% o gyfanswm y recriwtiaid) yn llwyddiannus a chynigiwyd swydd iddynt.

Cynhaliwyd adolygiad llawn o gylch recriwtio mis Ionawr, a rhoddwyd nifer o argymhellion ar waith yn ystod ail ymgyrch ym mis Medi, gan gynnwys dileu'r gofyniad o ran Tystysgrif mewn Gwybodaeth am Blismona a hyfforddiant pellach i fentoriaid. Yn ystod mis Medi, roedd 5% o'r ymgeiswyr o gefndir BAME. Roedd 6% yn llwyddiannus ar y cam pwysu a mesur ceisiadau ac roedd 4% yn llwyddiannus yn y Ganolfan Asesu. Ar hyn o bryd, nid yw'r canlyniadau terfynol ar gael.

Yn ystod y cylch hwn, cynhaliodd Heddlu Gwent ymarfer marchnata LGBaT a dargedwyd hefyd ar sail adborth lleol a thystiolaeth genedlaethol a ddangosodd y byddai pobl LGBaT yn llai tebygol o ymgeisio i fod yn swyddog heddlu. Roedd ymgeiswyr wedi cael eu cyfeirio hefyd at fodlau rôl LGBT o fewn yr Heddlu ac wedi mynd i noson ymwybyddiaeth benodol.



O gyfanswm o 591 o ymgeiswyr, roedd 469 yn heterorywiol, 22 yn lesbiaid, 23 yn ddeurywiol a 7 yn ddynion hoyw. Roedd yn well gan 70 beidio â dweud. Nid oedd neb yn draws\*. Er nad oes canran bendant yn genedlaethol y dylem geisio ei chyrraedd o ran nifer yr ymgeiswyr LGBaT, mae'r data hyn yn awgrymu bod gennym ragor o waith i'w wneud er mwyn annog dynion hoyw a thraws\* i ymgeisio, yn ogystal â chodi hyder i ddatgelu cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth rywedd wrth ymgeisio.

Yn ogystal ag ymgyrchoedd lleol, mae Heddlu Gwent yn gweithio gyda'r heddluoedd eraill yng Nghymru er mwyn datblygu tudalen gweithredu cadarnhaol i Gymru gyfan ar wefan Mis Hanes Pobl Dduon, ac mae pob swyddog heddlu a Swyddog Cymorth Cymunedol newydd bellach yn cael gwybodaeth am weithredu cadarnhaol a'i ddiben. Ym mis Chwefror, siaradodd ymgyngorydd allanol am Duedd Anymwybodol a'i heffaith ar arwain a gwneud penderfyniadau yn ystod diwrnod a gynhaliwyd i reolwyr canol ac uwch reolwyr ym mhob rhan o'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd, cyn cynnal profion Tuedd Anymwybodol gorfodol. Ar hyn o bryd, mae canlyniadau'r prawf hwn yn cael eu harchwilio er mwyn datblygu dealltwriaeth well o'r ffyrdd y gall Tuedd Anymwybodol ddylanwadu ar ein prosesau penderfynu sefydliadol.

Mae arolwg staff blynyddol Heddlu Gwent yn parhau i fonitro agweddau ar ddiwylliant y gweithle a all effeithio'n benodol ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig. Eleni, dywedodd 15% o ymatebwyr (157) eu bod wedi gweld bwlio neu aflonyddu yn y gweithle, a dywedodd 37 o ymatebwyr mai Nodwedd Warchodedig oedd y rheswm dros hynny. Cyfeiriodd y mwyafrif o'r ymatebion at oedran neu ryw unigolyn. Bydd rhwydweithiau cymorth staff a'r Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ymgymryd â'r gwaith i ddeall hyn ymhellach.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn cynnwys cam gweithredu er mwyn sicrhau bod pob cwyn sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn cael ei hadolygu gan banel annibynnol. Mae hyn eisoes yn digwydd yn achos cwynion allanol ar ôl sefydlu Panel Cwynion Gwahaniaethu, a bydd y gwaith o ehangu cylch gwaith y Panel i gynnwys cwynion mewnol yn cael ei flaenoriaethu eleni.

## **Amcan Cydraddoldeb Pedwar: Iechyd Meddwl**

*Gweithio mewn partneriaeth i wella gwasanaethau a ddarperir i bobl sy'n profi salwch meddwl a sicrhau lles meddyliol ein holl bersonél.*

Eleni, cytunwyd ar brotocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer delio â phobl sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl, a chafodd ei roi ar waith gyda phartneriaid gan gynnwys Awdurdodau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar Goncordat Iechyd Meddwl i Gymru hefyd, ac mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cael eu cynrychioli mewn grŵp gweithredu amlasiantaeth. Bydd y Concordat yn effeithio llawer iawn ar y ffordd y caiff darpariaeth mewn argyfwng ei rheoli yng Ngwent a Chymru ac, fel rhan o hyn, mae gan Heddlu Gwent Weithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ei Ystafell Reoli, sydd ar gael yn ystod cyfnodau lle mae galw mawr am wasanaeth ac sy'n rhoi cymorth a chynghor i swyddogion sy'n delio ag unigolion mewn argyfwng.

Datblygwyd canllawiau cynhwysfawr hefyd i staff meddygol y tu allan i oriau, sy'n ceisio lleihau effaith galwadau amhriodol i'r Heddlu i ymateb i ddigwyddiadau lle mae pobl yn wynebu argyfwng iechyd meddwl, ac mae Heddlu Gwent yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn nodi cyfleoedd pellach i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol eu helpu i ymateb ar adeg yr alwad. Rhoddwyd arian ar gyfer cerbyd cludo iechyd meddwl pwrpasol er mwyn helpu Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, a siaradwyd â staff y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol er mwyn helpu i godi eu hymwybyddiaeth o sut a phryd y dylid cynnwys yr Heddlu. Mae'r Heddlu wedi cyflwyno Arolygydd pwrpasol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, ac mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn aelodau o Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Gwent sy'n cadw golwg ar ddatblygiadau iechyd meddwl strategol.

Yn galonogol, mae gostyngiad parhaus i'w weld bellach yn nifer y celloedd yn y ddalfa sy'n cael eu defnyddio fel lle diogelwch:

|                       | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 (hyd yma) |
|-----------------------|------|------|------|----------------|
| <b>% yn y ddalfa</b>  | 42%  | 33%  | 26%  | 25%            |
| <b>% yn yr ysbyty</b> | 58%  | 67%  | 74%  | 75%            |

Hon oedd y flwyddyn gyntaf hefyd lle'r oedd angen i'r Heddlu gyflwyno adroddiad yn ffurfiol i'r Swyddfa Gartref ar nifer yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa o dan Adran 136.

| 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---------|---------|---------|
| 319     | 262     | 305     |

Rhoddwyd llawer o hyfforddiant ar iechyd meddwl i staff a swyddogion ym mhob rhan o'r Heddlu, gan gynnwys hyfforddiant ar gadw unigolion yn y ddalfa o dan Adran 135/136, pobl sydd ar goll, galluedd meddyliol ac ymyrryd i atal hunanladdiad. Mae pob Swyddog Cymorth Cymunedol wedi cael hyfforddiant ar ddementia hefyd. Mae Tîm Iechyd Galwedigaethol Heddlu Gwent wedi rhoi Hyfforddiant Gwrthsefyll Trawma i grŵp peilot o 62 o swyddogion rheng flaen. Ar ôl cael adborth hynod gadarnhaol i werthuso'n drylwyr, mae arian allanol bellach wedi'i sicrhau i gyflwyno hwn i bob swyddog rheng flaen.

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymorth Iechyd Meddwl llwyddiannus y gall pob aelod o staff a swyddog ei ddefnyddio, ac mae rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid yn cael ei ddatblygu. Mae gwaith y Rhwydwaith wedi cael sylw ar Radio 5 Live, ac mae sawl aelod wedi ymgynnig i sôn am eu profiadau o fod yn sâl fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl.

## 4. Adolygiadau gan Gymheiriaid

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r ffordd rydym yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad, mae Heddlu Gwent wedi rhoi proses Adolygu gan Gymheiriaid ar waith mewn partneriaeth â heddluoedd eraill Cymru a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae Adolygiadau gan Gymheiriaid yn thematig o ran eu natur a, hyd yn hyn, wedi canolbwyntio ar ethnigrwydd ac amrywiaeth rhywiol/oedran.

Mae heddluoedd yn adolygu tystiolaeth a gyflwynwyd ymlaen llaw ac yn cyfweld â'u cymheiriaid, gan nodi unrhyw arfer da cyffredin, dulliau arloesol y gellid eu defnyddio ym mhob heddlu a meysydd i'w gwella. Yn ystod ail ran y broses, mae sefydliadau allanol, er enghraifft Stonewall a Race Equality First, yn ogystal â chynrychiolwyr o Grwpiau Cynghori Annibynnol a Rhwydweithiau Cymorth Staff, yn derbyn canfyddiadau ac yn helpu i lywio argymhellion. Mae rhywfaint o'r gwaith a gynhyrchwyd yn sgil Adolygiadau gan Gymheiriaid hyd yma yn cynnwys:

- Dull Cymru gyfan o weithredu cadarnhaol drwy dudalen ymgyrch Mis Hanes Pobl Dduon
- Sefydlu Gweithgor Hunaniaeth Rywedd yng Ngwent, gan ganolbwyntio ar sicrhau cynhwysiant yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau i bobl â rhywedd amrywiol
- Ymateb gwell i droseddau casineb y mae swyddogion a staff yr heddlu ar ddyletswydd yn eu profi, a threfnu bod cymorth ar gael iddynt
- Datblygu Diwrnod Datblygu Rhwydwaith Cymorth Staff Cymru Gyfan, i'w gyflwyno yn ystod Hydref 2017

Mae'r holl argymhellion lleol a rhanbarthol yn cael eu casglu a'u monitro gan Grŵp Amrywiaeth Cymru Gyfan, sy'n cael ei gadeirio gan Brif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed-Powys.

## 5. Monitro a Chraffu

Mae cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei fonitro o hyd gan Fwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Heddlu Gwent, sy'n cyfarfod bob chwarter ac yn pennu'r agenda cydraddoldeb strategol. Mae'r cyfarfod hwn yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolydd o bob rhwydwaith cymorth staff, ein harweinwyr amrywiaeth fewnol ac allanol, ein Hyrwyddwyr Amrywiaeth a'n harweinwyr Gwasanaethau Pobl, yn ogystal â Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Arweinwyr Ffrydiau Gwaith perthnasol sy'n berchen ar yr Amcanion Cydraddoldeb, ac maent yn rhoi'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth am unrhyw waith llwyddiannus neu bethau a all rwystro cynnydd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl drwy'r Bwrdd. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol o hyd am gadw golwg ar y gwaith hwn drwy ofyn am adroddiadau diweddarau yn rheolaidd fel rhan o'i Fwrdd Perfformiad Strategol.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, cysylltwch â'r isod:

### **Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent**

Pencadlys Heddlu Gwent,

Croesyceiliog,

Cwmbrân

NP44 2XJ

Ffôn: 01633 247907

E-bost: [communitycohesion@gwent.pnn.police.uk](mailto:communitycohesion@gwent.pnn.police.uk)

### **Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Pencadlys Heddlu Gwent,

Croesyceiliog,

Cwmbrân

NP44 2XJ

Ffôn: 01633 642200

E-bost: [commissioner@gwent.pnn.police.uk](mailto:commissioner@gwent.pnn.police.uk)

[www.gwent.pcc.police.uk](http://www.gwent.pcc.police.uk)